



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 46
GORFFENNAF 2012

Tua'r adeg yma y llynedd cawsom ein cyfareddu gan deulu bach arbennig iawn yn yr ardal hon sef teulu'r Gweilch, a fu'n nythu ar ben polyn telegraff nid nepell o'r rheilffordd yng ngwarchodle Cors Ddyfi, Ynyshir. Buom yn dilyn hynt a helynt magwraeth y tri chyw, Einion, Dulas a Leri, drwy gyfrwng y camerâu a osodwyd ger y nyth ac yn ddiweddarach bu'n bosib dilyn eu taith wrth iddynt hedfan draw i'r Afrrig gan fod trac lloeren wedi'i osod ar bob un ohonynt. Erbyn hyn gwyddom fod Einion a Dulas yn ffynnu yn yr Afrrig ond erys peth ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd i Leri.

Eleni eto fe ddychwelodd y ceiliog a'r iâr, Monty a Nora, i nythu ar ben yr un polyn telegraff yng Nghors Ddyfi. Ymhen ychydig fe ddaeth yn hysbys bod Nora wedi dodwy tri wy ac yn wir fe wnaeth y tri ddeor ymhen amser. Ond yn anffodus fe ddaeth yr hen stormydd garw i Geredigion gan darfu ar brifiant y cywion. Bu farw'r cyw cyntaf yn fuan ar ddiwedd mis Mai ac un arall wedyn adeg y llifogydd, a hyn er gwaethaf ymdrechion gwrol ei rieni i'w amddiffyn. Fe ddaeth hi'n amlwg bod y cyw bach olaf, Ceulan, mewn cyflwr bregus iawn ac am ryw reswm roedd Nora yn cael trafferth i'w fwydo. Roedd staff y gwarchodle yn ymwybodol iawn y byddai'r cyw yma hefyd yn marw oni bai y derbynai gymorth ar frys ac felly fe benderfynodd un ohonynt ddringo i'r nyth i'w gynorthwyo.

Yn ôl yr adroddiadau a ymddangosodd ar y we, fe ddringodd Warden y Prosiect i fyny i'r nyth a chodi Ceulan gan ei lapio mewn tywel i'w gynhesu. Mae'n debyg bod y cyw bach yn crynu fel deilen, yn wanlyd iawn ac yn amlwg yn dioddef o'r oerfel. Agorwyd ei big ac fe roddwyd darnau bychain o bysgod yn ei geg. Ar ôl rhyw ddeng munud fe ddechreuodd ymateb gan ddangos ei fod yn awyddus i gael rhagor o fwyd. Wedi deng munud arall cafodd ddigon o nerth i sefyll ar ei draed ac wedi hanner awr barnwyd ei fod yn ddigon da i fynd yn ôl i'r nyth. Yna, er mawr lawenydd i bawb, fe ddechreuodd Nora ei fwydo eto. Roedd ymyrraeth y Warden wedi llwyddo i achub bywyd y cyw bach.

Mawr obeithiwn y bydd Ceulan yn goroesi a thyfu'n gryf ac yn medru cyfrannu at gynnydd y gweilch yn yr ardal hon yn y dyfodol. Diolchwn hefyd am ymyrraeth staff y gwarchodle yn cynorthwyo Ceulan ar yr awr dyngedfennol honno yn ei hanes.

Ein gweddi yn aml wrth inni dystio i'r holl drychinebau ac anawsterau a welwn o'n cwmpas yw y bydd Duw yn barod i ymyrryd er mwyn estyn cymorth a rhoi diwedd ar yr holl ddiodefaint ac ymladd. Cwestiynau a glywir yn aml pan fydd trychinebau yn digwydd a phobl ddieuog yn dioddef yw cwestiynau fel y rhain: Ble mae Duw? Paham nad yw Duw yn rhwystro'r drychineb hon? Digon rhwydd yw anghofio bod Duw wedi ymyrryd yn y byd hwn rhyw ddwy fil o flynyddoedd yn ôl pan anfonodd Iesu Grist atom i'n dysgu sut i fyw a sut i ymwneud â'n gilydd. Ein gwaith ni bellach, yng ngrym yr Ysbryd Glân, yw ymyrryd i gynorthwyo'n gilydd ac i greu byd sydd yn unol â'i ewyllys dwyfol Ef.

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW

Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MISOEDD GORFFENAF- AWST 2012

Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
1 Gorffennaf 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Wendy ac Eirian
8 Gorffennaf 10.30yb	Oedfa Deuluol : Gweinidog	
15 Gorffennaf 2.30yp	Oedfa Bregethu: Gweinidog	Gofal y Te: I'w drefnu
22 Gorffennaf 10.30yb	Clwb Sul bach ac Oedfa Bregethu : Gweinidog	
29 Gorffennaf 10.30yb	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Glenys a William
5 Awst 10.00yb a 6.00 yh BETHEL	Y Parchedig Ddr D Ben Rees	
12 Awst 10.00yb a 6.00 yh MORFA	Y Parchedig Eifion Roberts	
19 Awst 10.00yb a 6.00 yh SEION	Y Parchedig Jim Clarke	
26 Awst 10.00yb a 6.00 yh BETHEL	10.00 Y Parchedig Ddr Rhys Llwyd 6.00 Y Parchedig Peter Thomas	
2 Medi 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Sue

I'CH DYDDIADUR

2 Gorffennaf: Cinio Bara Caws yn Neuadd y Waun, 12.00-1.30yp

10 Gorffennaf: Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn am 7.00yh

11 Gorffennaf: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

11-13 Gorffennaf: Cyfarfodydd Undeb Bedyddwyr Cymru, Llysfasi, Rhuthun.

20 Gorffennaf: Barbeciw Horeb yn Stablau Sian am 6.30yh

25 Gorffennaf: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

25 Gorffennaf: Cymdeithas Bethel: Te ym Mryngryffty.

31 Gorffennaf: Cylch Trafod y Beibl yn Festri Horeb am 7.30yh

8 Awst: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.

22 Awst: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp. Horeb yn gyfrifol am weini.

3 Hydref: Oedfa Ddiolchgarwch yng nghwmni Aled Pickard o Cymorth Cristnogol am 7yh.

6 Hydref: Diwrnod i'r Brenin yn Llanelwedd. Gŵyl Gristnogol i bob oed. Trefnir ar y cyd gan Undeb Bedyddwyr Cymru ac Undeb yr Annibynwyr. Byddwn yn trefnu bws.

LLOFFION

Dymuniadau gorau i Mrs Connie Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Diolch yn fawr iawn i Mair, Mairwen ac Eirian am gynnal oedfa ar ran Horeb yng Nghartref Tregerddan ym mis Mehefin.

Barbeciw: Cofiwch am y barbeciw eleni eto yn Stablau Sian. Byddwn yn cynnal cystadleuaeth arlunio/crefft i'r plant ac fe fyddwn yn gwobrwyo'r goreuon ar y noson. Y testun yw: 'Y Gemau Olympaidd'. Cewch ddefnyddio unrhyw gyfrwng, er enghraifft, crayonau, paent, collage ac yn y blaen ond defnyddiwch ddarn o bapur maint A3. (Bydd papur ar gael gan y Gweinidog). Y beiriniaid fydd Ceri Williams a Derfel Reynolds. Dewch â'ch gwaith i'r festri erbyn Dydd Sul, 15fed Gorffennaf.